Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gymunedol Croesgoch
## Llanrhian Road
## Croesgoch
## Hwlffordd
## Sir Benfro
## SA62 5JT

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/02/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymunedol Croesgoch wedi'i lleoli ym mhentref Croesgoch rhwng Tyddewi ac Abergwaun, yn Sir Benfro. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Mae 108 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys wyth disgybl meithrin rhan-amser. Mae gan yr ysgol bedwar dosbarth oed cymysg. Mae tua 23% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, a nifer bach iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Mae tua 28% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac nid yw Saesneg yn iaith ychwanegol i'r un disgybl. Saesneg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu Cymraeg fel ail iaith, ond mae'r ysgol yn datgan bod tua 9% ohonynt yn dysgu Cymraeg mamiaith.

Roedd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn absennol o'r ysgol yn ystod yr arolygiad. Roedd yr awdurdod lleol wedi penodi pennaeth gweithredol dros dro i ofalu am yr ysgol am naw diwrnod, nad oeddent yn ddiwrnodau olynol, yn y cyfnod hyd at yr arolygiad.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2001 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2012.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol yn Ysgol Gymunedol Croesgoch yn 2016-2017 yw £4,276 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £6,870 a'r lleiafswm yw £3,247. Mae Ysgol Gymunedol Croesgoch yn y 18fed safle o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen
- Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n dda
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u galluoedd
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, amser cinio ac amser chwarae
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith

Fodd bynnag:

- Nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent
- Mae cynnydd disgyblion mewn ysgrifennu yn amrywio'n ormodol
- Nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn ddigon aml ac, o ganlyniad, nid yw llawer ohonynt yn cyflawni cystal ag y gallent
- Nid yw medrau Cymraeg mamiaith na Chymraeg ail iaith disgyblion yn ddigon cadarn
- Mae ansawdd yr addysgu'n amrywio'n ormodol o ddosbarth i ddosbarth
- Nid yw asesiadau athrawon bob amser yn cyfateb i'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi ac yn eu llyfrau

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn meithrin perthnasoedd da rhwng staff, rhieni a llywodraethwyr
- Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol i greu ethos cadarnhaol, ysgol gyfan, lle y mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda
- Mae'r ysgol wedi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus
- Mae'r adroddiad hunanarfarnu'n nodi blaenoriaethau allweddol i'w gwella yn gywir

- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth eang o bartneriaid ac mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ddysgu a lles disgyblion

Fodd bynnag:

- Mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o strategaethau addas i godi safonau, ond mae'n rhy gynnar eto i fesur effaith lawn y rhain
- Nid yw llywodraethwyr wedi datblygu eu rôl fel ffrindiau beirniadol yn ddigonol
- Nid yw arweinwyr yn amlygu diffygion mewn addysgu yn drylwyr ac nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi adborth ar ddiffygion a nodwyd yn ddigon cadarn
- Nid yw'r holl aelodau staff yn cael cyfleoedd addas i gyfrannu'n llawn at weithdrefnau hunanarfarnu neu i fonitro cynnydd

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu, Cymraeg mamiaith ac ail iaith, a mathemateg ar draws yr ysgol

A2 Cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mamiaith i ddatblygu eu medrau llythrennedd Cymraeg ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella ansawdd addysgu fel ei fod yn rhoi her briodol i ddisgyblion o bob gallu

A4 Gwella prosesau marcio, asesu ac olrhain i sicrhau'r deilliannau gorau i bob disgybl

A5 Cryfhau medrau arweinyddiaeth yr holl staff a rôl llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol

A6 Gwella'r broses hunanarfarnu fel ei bod yn canolbwyntio'n fanwl ar godi safonau i ddisgyblion

A7 Cynyddu presenoldeb disgyblion

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol islaw'r medrau disgwyliedig ar gyfer eu hoedran. O'u mannau cychwyn, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da. Nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn siarad yn glir am amrywiol bynciau o ddiddordeb ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn sgyrsiau â'u cymheiriaid ac oedolion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu barn yn glir ac yn trafod agweddau ar eu gwaith gan ddefnyddio geirfa briodol sy'n benodol i'r pwnc. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n dda ar eraill ac yn dangos parch tuag at wahanol safbwyntiau. Mae mwyafrif y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mamiaith yn datblygu'u medrau'n briodol ac yn defnyddio geirfa sy'n addas i'w hoed a'u gallu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau darllen ac, erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn darllen yn gywir ac yn rhugl, ac yn trafod eu hoff lyfrau'n dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall testunau wrth ddarllen yn Gymraeg a Saesneg. Trafodant eu hoff awduron a rhoddant resymau penodol dros eu dewisiadau. Nid yw ychydig ddisgyblion hŷn bob amser yn bras-ddarllen ac yn cip-ddarllen testunau'n effeithiol wrth adalw gwybodaeth. Mae'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mamiaith yn darllen yn rhugl ac yn hyderus yn y Cyfnod Sylfaen, ond yng nghyfnod allweddol 2, nid ydynt yn defnyddio medrau darllen uwch yn dda wrth gaffael gwybodaeth am bynciau penodol.

Ar draws yr ysgol, mae cynnydd mewn ysgrifennu yn amrywio'n ormodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn cynllunio'u hysgrifennu'n briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth foddhaol o wahanol ddibenion ysgrifennu. Datblygant eu syniadau gan ddefnyddio brawddegau syml. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n ddigon helaeth ar draws amrywiaeth o genres. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu'u medrau ysgrifennu ac maent yn ysgrifennu at amrywiaeth foddhaol o ddibenion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cynhyrchu darnau estynedig o waith ysgrifennu i safon ddigon uchel. Nid yw mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llawysgrifen a chyflwyno addas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg mamiaith yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ysgrifennu'n estynedig ac mae taflenni gwaith yn cyfyngu ar eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion sy’n dysgu Cymraeg ail iaith yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg yn frwdfrydig ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu’r iaith. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae’r mwyafrif yn datblygu medrau Cymraeg sy’n briodol yn gyffredinol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y mwyafrif ohonynt eirfa sylfaenol a gwybodaeth am batrymau brawddegau syml. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf ohonynt hyder i ddefnyddio’u Cymraeg mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol y tu allan i wersi dynodedig. Mae eu medrau darllen ac ysgrifennu yn ddigonol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgol yn datblygu medrau rhifedd priodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif i 100 ac yn ôl yn gywir, gan ddechrau deall gwerth lle a’r pedair rheol rhif. Mae llawer ohonynt yn defnyddio unedau mesur safonol yn gywir. Mae llawer ohonynt yn gwybod enwau a phriodweddau siapiau dau a thri dimensiwn, yn defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian hyd at bunt ac yn casglu data’n llwyddiannus mewn amryw ffurf. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn deall y berthynas rhwng degolion, ffracsiynau a chanrannau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn datblygu ystod addas o strategaethau meddwl i ddod i atebion cywir. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau datrys problemau, sy’n aml yn gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn cyfrifo nifer posibl yr ergydion golff y mae eu hangen i gyrraedd twll penodol yn seiliedig ar feini prawf gosod. Fodd bynnag, yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw disgyblion yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw llawer ohonynt yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau prosesu geiriau’n dda i ysgrifennu ac ailadrodd storïau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio TGCh i drin a thrafod data’n briodol, gan greu graffiau syml i ddangos amlder gwahanol liwiau llygaid yn y dosbarth. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio rhaglenni TGCh yn llwyddiannus i ymarfer medrau darllen a rhif, er enghraifft wrth labelu’r sgerbwd a threfnu rhifau. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn rheoli teganau rhaglenadwy yn llwyddiannus i greu siapiau 2D.

Erbyn Blwyddyn 6, mae gan lawer o ddisgyblion ystod dda o fedrau TGCh y maent yn eu defnyddio’n llwyddiannus mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Mae llawer ohonynt yn defnyddio taenlenni ac yn creu graffiau yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn ymchwilio pa mor gyflym mae gwahanol hadau’n tyfu, a chofnodi twf y rhain dros nifer o wythnosau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni addas i gasglu a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. Mae gan bob un ohonynt ddealltwriaeth sicr o e-ddiogelwch.

Oherwydd niferoedd bach y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn, nid yw data perfformiad yr ysgol yn ddibynadwy.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion yn y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, er bod perfformiad yn y deilliant disgwyliedig mewn medrau llythrennedd Cymraeg wedi bod yn y 25% uchaf yn gyffredinol. Yn y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 50% is neu’r 25% isaf yn gyffredinol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion ar y lefelau disgwyliedig ac uwch mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio hefyd o gymharu ag ysgolion tebyg, er iddo fod yn y 50% is neu'r 25% isaf fel arfer.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol a gwyddant at bwy i droi os oes angen help neu gymorth arnynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn deall manteision ymarfer a ffordd iach o fyw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac yn ystod amser cinio ac amser chwarae. Symudant o gwmpas yr ysgol yn ddigynnwrf ac maent yn gwrtais iawn. Dangosant barch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn canolbwyntio'n dda. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cyfrannu'n dda mewn gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd effeithiol. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned ac maent yn ymgymryd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar iawn ac mae'n hybu hawliau disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau pwrpasol am eu dysgu; er enghraifft, maent yn paratoi mapiau'r meddwl ar ddechrau pob tymor ac yn datblygu datganiad gweledigaeth TGCh i'r ysgol.

Mae disgyblion yn cefnogi llawer o elusennau'n weithgar, fel Plant mewn Angen, sy'n codi'u hymwybyddiaeth o faterion lleol ac ehangach.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi disgyn o'r 50% uwch i'r 25% isaf o gymharu â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu priodol sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r maes llafur cytunedig ar gyfer addysg grefyddol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws meysydd pwnc eraill. Ar draws yr ysgol, mae'r defnydd amhriodol ar daflenni gwaith yn aml yn llesteirio medrau ysgrifennu estynedig disgyblion. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol i hybu dysgu disgyblion, er enghraifft y clybiau ffilm, coginio a chwaraeon.

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar y cyfan i ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion sy'n dysgu Cymraeg

mamiaith yn cael eu cynllunio'n ddigon da ac nid yw'r gwaith bob amser yn bodloni eu hanghenion yn briodol. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer eu patrymau iaith cytunedig yn ddyddiol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn helpu disgyblion i ddatblygu eu dysgu'n gynyddol ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith y tu allan i wersi Cymraeg. Mae staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau difyr i hybu dealltwriaeth disgyblion o dreftadaeth a diwylliant Cymru, er enghraifft ymweliadau â mannau pwysig o ddiddordeb, fel Eglwys Gadeiriol Tyddewi a Chastell Henllys, a llawer o gyfleoedd i gynhyrchu prosiectau cyffrous ar hanes lleol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i godi arian at nifer o achosion da a chymryd rhan mewn amrywiol ddiwrnodau diwylliannol. Mae cysylltiadau da â gwledydd fel Lesotho a'r Almaen. Mae gwaith yr ysgol ar gynaliadwyedd yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion amgylcheddol. Mae'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n bwrpasol ac ailgylchu ac arbed dŵr.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r berthynas sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion ym mhob dosbarth yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn cyflwyno amcanion dysgu yn glir ac yn hybu ymddygiad disgyblion yn dda. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth dda am eu pwnc ac mae cyflwyniadau'n fywiog a phwrpasol. Mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion drafod eu barn a defnyddiant gwestiynau penagored i wella dysgu disgyblion. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn amrywio'n ormodol o ddosbarth i ddosbarth. Yn yr ychydig o ddosbarthiadau llai effeithiol, mae rhediad y gwersi'n aml yn eithaf araf, nid yw gweithgareddau'n herio disgyblion yn llwyddiannus, nid yw disgwyliadau'n ddigon uchel ac mae athrawon yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar ddefnyddio taflenni gwaith nad ydynt yn ymestyn disgyblion yn ddigon da. Er bod cynorthwywyr addysgu yn cyflawni ymyriadau ac yn gwneud gwaith grwpiau bychain yn effeithiol, nid yw athrawon bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'u cynorthwywyr yn ystod sesiynau dosbarth cyfan.

Yn yr arfer orau, mae athrawon yn helpu disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda ond ni chânt eu cymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu cynnydd eu hunain a chynnydd eu cymheiriaid yn datblygu'n briodol.

Mae athrawon yn defnyddio system olrhain yr ysgol yn addas i nodi cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r broses bob amser yn adlewyrchu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn gywir. O ganlyniad, nid yw asesiadau athrawon bob amser yn cyfateb i'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi ac mewn llyfrau gwaith.

Mae adroddiadau i rieni yn bodloni gofynion statudol. Darparant wybodaeth ddefnyddiol am gyflawniadau disgyblion a thargedau addas ar gyfer gwella amrywiol agweddau ar fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel yn ganolog i ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn llwyddo i annog disgyblion i ddatblygu ymdeimlad ar y cyd o werthoedd, gan gynnwys parch tuag at eraill. Mae aelodau staff yn cyflwyno'r gwerthoedd hyn yn sensitif mewn gwasanaethau ac yn eu hatgyfnerthu o gwmpas yr ysgol.

Mae trefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn annog disgyblion i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a bod yn weithgar yn yr iard. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu hysbrydolrwydd, er enghraifft trwy wasanaethau myfyriol ac astudiaethau ystyrlon o grefyddau'r byd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o asiantaethau arbenigol, fel y gwasanaeth iaith a lleferydd, sy'n rhoi cymorth ac arweiniad i ddisgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol system glir ar gyfer nodi disgyblion y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae aelodau staff yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar ac yn gweithredu rhaglen o strategaethau ymyrryd hynod effeithiol, y maent yn ei monitro'n ofalus. Mae athrawon yn cynnwys rhieni a disgyblion yn effeithiol yn y broses o lunio ac adolygu cynlluniau addysg unigol. Mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth da i grwpiau ac unigolion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan Ysgol Croesgoch ethos croesawgar a gofalgar sy'n hybu cydraddoldeb a pharch rhwng disgyblion a staff yn llwyddiannus. Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal at yr agweddau amrywiol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth dda o ymweliadau a gweithgareddau diddorol sy'n hybu dealltwriaeth disgyblion o hawliau plant, er enghraifft cymryd rhan mewn gweithgareddau dinasyddiaeth leol. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith i gynnal presenoldeb a'i wella, ac i ddelio ag unrhyw ymddygiad annerbyniol.

Mae'r ystafelloedd dosbarth wedi'u trefnu'n dda a chynigiant amgylchedd ysgogol i ddisgyblion. O gwmpas yr ysgol, mae arddangosfeydd lliwgar ar y waliau a'r coridorau yn dathlu cyflawniadau a gwobrau disgyblion. Mae ardaloedd darllen pwrpasol sy'n cynnwys adnoddau a llyfrau o ansawdd da. Mae gan yr ysgol ystod briodol o offer TGCh ac mae staff yn annog disgyblion i wneud defnydd da o godau ymateb cyflym (QR).

Mae'r ddarpariaeth awyr agored yn dda ac mae staff a disgyblion yn ei defnyddio'n dda. Mae'r ardaloedd chwarae yn addas ac yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau a chwarae corfforol. Caiff yr adeiladau eu cynnal a chadw'n dda. Mae safle'r ysgol yn ddiogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff, rhieni a llywodraethwyr. Yn ystod absenoldeb y pennaeth a'r dirprwy bennaeth, mae'r pennaeth gweithredol dros dro wedi ennill dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn gyflym. Mae wedi rhannu ei disgwyliadau uchel gyda'r aelodau staff yn llwyddiannus ac wedi rhoi cynllun gweithredu ar waith i gefnogi aelodau staff wrth baratoi ar gyfer yr arolygiad.

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol i greu ethos ysgol gyfan, cadarnhaol, lle y mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles disgyblion. Mae'r uwch dîm rheoli yn cyfarfod i drafod materion o ddydd i ddydd a materion sy'n ymwneud â gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar feysydd penodol y mae angen eu gwella. Mae'r uwch dîm rheoli wedi cyflwyno nifer o strategaethau i godi safonau, ond mae'n rhy gynnar eto i fesur effaith lawn y rhain.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol ac mae ganddo wybodaeth gadarn am ei pherfformiad. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi bod yn cynnal teithiau dysgu ac mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o safonau a blaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, dros amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi cyfrannu'n effeithiol at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol ac nid yw llywodraethwyr wedi datblygu'u rôl fel ffrindiau beirniadol yn ddigonol.

Mae blaenoriaethau strategol yr ysgol yn briodol ac yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu'n nodi nifer o flaenoriaethau i'w gwella yn gywir, fel yr angen i herio disgyblion mwy abl a gwella perfformiad disgyblion ar y lefelau uwch. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn nodi diffygion mewn addysgu yn drylwyr ac nid oes gweithdrefnau digon cadarn gan yr ysgol ar gyfer rhoi adborth ar ddiffygion a nodir a sicrhau bod staff yn gweithredu ar y rhain yn gyson.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi llawer o flaenoriaethau priodol ar gyfer gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae camau diweddar i wella medrau rhifedd a darllen disgyblion yn cael effaith ar gynnydd disgyblion. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi amserlenni, costau a rolau unigolion allweddol. Fodd bynnag, weithiau, nid oes gan gamau gweithredu feini prawf llwyddiant cadarn i alluogi arweinwyr i fesur effaith cynnydd yn gywir. Mae cysylltiadau priodol rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Mae trefniadau hunanarfarnu'n rhoi ystyriaeth briodol i ddadansoddi data, monitro gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae arweinwyr yn cyfrannu'n briodol at weithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol, er nad yw staff bob amser wedi'u cynnwys yn llawn yn y

broses. Nid yw rhieni a llywodraethwyr yn cael cyfleoedd ffurfiol i gyfrannu at y broses hunanarfarnu.

Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn llawn i rai o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid ac mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ddysgu a lles disgyblion. Mae'r bartneriaeth â rhieni yn nodwedd gadarn o'r ysgol. Mae rhieni'n gefnogol iawn o'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth reolaeth a gânt am gynnydd eu plant. Mae cymdeithas rieni ac athrawon weithgar, sy'n codi llawer o arian i'r ysgol.

Mae gan yr ysgol le canolog yn y gymuned. Er enghraifft, mae cysylltiadau cryf iawn â'r eglwysi lleol ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau a digwyddiadau'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gweinidog a'r ficer lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arwain addoli ar y cyd. Mae swyddog cymunedol yr heddlu yn ymweld yn aml i arwain sesiynau ar e-ddiogelwch a seiberfwlio ac mae hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion ynghylch sut i gadw'n ddiogel.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus â'r ysgolion uwchradd lleol sy'n derbyn ei disgyblion ac ysgolion cynradd ei chlwstwr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd, er enghraifft i safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd ac mewn Cymraeg. Mae trefniadau pontio effeithiol i ddisgyblion sy'n symud o Flwyddyn 6 i'w dewis ysgol uwchradd. Mae hyn yn ategu lefelau cyflawniad gwell gan ddisgyblion.

Mae amrywiaeth eang o bartneriaethau buddiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau eraill, fel yr awdurdod lleol, busnesau a chymdeithasau threftadaeth. Er enghraifft, fe wnaeth yr ysgol gymryd rhan mewn prosiect cenedlaethol yn ddiweddar i ddathlu treftadaeth leol a digwyddiadau hanesyddol a llwyddodd i ennill gwobr fawreddog o ganlyniad.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer digonol o staff sydd wedi'u cymhwyso'n addas i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn dosbarthu staff yn bwrpasol i wneud y defnydd gorau o'u medrau a chaiff arbenigedd athrawon ei ddefnyddio'n addas i gyfoethogi agweddau ar y cwricwlwm, er enghraifft mewn meysydd fel mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, gall athrawon a staff cymorth fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi priodol sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r ysgol ac i anghenion personol unigolion. Ar hyn o bryd, nid yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw rwydweithiau arfer broffesiynol ac, o ganlyniad, nid yw staff yn cael digon o gyfleoedd i weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill neu rannu arfer dda gyda nhw.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn briodol. Ar hyn o bryd, maent yn gweithio gyda swyddogion cyllid yr awdurdod lleol i wneud y defnydd gorau o gyllid yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'r grant

amddifadedd disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd, a lles disgyblion targedig.

Yng ngoleuni ansawdd darpariaeth yr ysgol a'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6682270 - Ysgol Gymunedol Croesgoch**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 16 | 8 | 22 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.5 | 87.5 | 81.8 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 7 | 20 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.3 | 85.7 | 85.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.7 | 28.6 | 30.0 | 30.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 1 | 1 | 2 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 0.0 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 8 | 22 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.8 | 87.5 | 86.4 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 18.8 | 25.0 | 27.3 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 8 | 22 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.8 | 87.5 | 86.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 37.5 | 27.3 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6682270 - Ysgol Gymunedol Croesgoch**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.2 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 18 | 13 | 12 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 88.9 | 100.0 | 83.3 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 13 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 100.0 | 91.7 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.9 | 30.8 | 33.3 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 1 | * | 2 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 0.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | 0.0 | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 13 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 100.0 | 83.3 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.9 | 30.8 | 25.0 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 13 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 100.0 | 91.7 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.9 | 38.5 | 33.3 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 55 | 55<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 55 | 55<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 55 | 55<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 55 | 55<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 55 | 55<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 50 | 48<br>96%<br>96% | 2<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 55 | 55<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 55 | 55<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 51 | 46<br>90%<br>91% | 5<br>10%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 55 | 55<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 37 | 19<br>51%<br>77% | 18<br>49%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 53 | 53<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 31 | 20 | 10 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 32% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 31 | 23 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 24 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 30 | 17 | 11 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 37% | 7% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 29 | 14 | 15 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 28 | 14 | 12 | 2 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 50% | 43% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 30 | 22 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 73% | 23% | 3% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 24 | 10 | 9 | 5 | 0 | 6 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 42% | 38% | 21% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 30 | 18 | 10 | 1 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 33% | 3% | 3% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 30 | 18 | 12 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 31 | 23 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 24 | 16 | 7 | 1 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 67% | 29% | 4% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 29 | 17 | 8 | 4 | 0 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 59% | 28% | 14% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 30 | 24<br>80% | 6<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 30 | 22<br>73% | 7<br>23% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 30 | 20<br>67% | 9<br>30% | 0<br>0% | 1<br>3% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 21 | 15<br>71% | 4<br>19% | 1<br>5% | 1<br>5% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 18<br>58% | 10<br>32% | 2<br>6% | 1<br>3% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 20<br>77% | 6<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Mair Potter | Arolygydd Cymheiriaid |
| Wendy Raymond | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.